



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

www.cymru.gov.uk

Polisi Cynllunio Cymru



Pennod 12 Seilwaith a Gwasanaethau

© Hawlfraint y Goron 2014
WG21803



12.1 Amcanion

12.1.1 Mae seilwaith digonol ac effeithiol, gan gynnwys gwasanaethau megis addysg a chyfleusterau iechyd yn ogystal â chyflenwad dŵr, carthffosydd, rheoli gwastraff, trydan a nwy (y cyfleustodau) a thelathrebu, yn hanfodol i gynaliadwyedd economaidd, cymdeithasol ac amgylcheddol pob rhan o Gymru. Mae'n sail i gystadleurwydd economaidd, ac yn rhoi cyfle i aelwydydd a busnesau fyw a gweithio mewn modd sy'n fwy dymunol yn gymdeithasol ac yn amgylcheddol. Wedi dweud hynny, gall seilwaith sydd wedi'i ddylunio'n wael neu wedi'i leoli'n wael waethygu problemau yn hytrach na'u datrys.

12.1.2 Mae'r bennod hon yn trafod seilwaith a gwasanaethau, hynny yw materion cyflenwi dŵr a rheoli gwastraff dŵr, rheoli gwastraff, cyflenwi ynni o ffynonellau adnewyddadwy a ffynonellau ynni rhad-ar-garbon, a thelathrebu. Ceir canllawiau ar y seilwaith trafndiaeth ym Mhennod 8.

12.1.3 O dan ddeddfwriaeth Ewropeaidd ar yr amgylchedd mae rhwymedigaeth ar Aelod-wladwriaethau'r UE i ddarparu seilwaith amgylcheddol (megis gweithfeydd trin dŵr gwastraff). Mae gan Lywodraeth Cymru rôl bwysig yn sicrhau cydymffurfiaeth.

12.1.4 Nod Llywodraeth Cymru yw darparu'r seilwaith amgylcheddol a thelathrebu sydd ei angen i gyflawni amcanion datblygu cynaliadwy, gan leihau'r effeithiau andwyol ar yr amgylchedd, iechyd a chymunedau. Bydd angen mynd ati o'r newydd i fynd i'r afael â seilwaith yn sgil goblygiadau'r newid yn yr hinsawdd. Yr amcanion yw:

- diogelu a gwella adnoddau dŵr trwy wella effeithlonrwydd a rheoli'r galw am ddŵr, yn enwedig yn yr ardaloedd hynny lle mae'n bosibl nad oes adnoddau dŵr ychwanegol ar gael;
- sicrhau bod cyfleusterau carthffosiaeth priodol yn cael eu darparu i gludo, trin a chael gwared â dŵr gwastraff yn unol â'r ddeddfwriaeth briodol ac egwyddorion cynaliadwyedd;
- sicrhau y sefydlir cyfleusterau priodol i osgoi, aildddefnyddio, paratoi ar gyfer aildddefnyddio, ailgylchu, adfer a, phan fo'n briodol, cael gwared ar wastraff yn ddiogel, er mwyn bodloni amcanion Llywodraeth Cymru ar gyfer rheoli gwastraff;
- hybu cynhyrchu a defnyddio ynni o ffynonellau adnewyddadwy a ffynonellau rhad-ar-garbon ar bob graddfa, a hybu defnyddio ynni'n effeithlon, yn enwedig fel ffordd o sicrhau datblygiadau di-garbon neu rad-ar-garbon ac i fynd i'r afael â'r ffactorau sy'n achosi'r newid yn yr hinsawdd;
- hybu datblygu seilwaith telathrebu band eang datblygedig ledled Cymru;
- hybu dull integredig o ddarparu ac adnewyddu seilwaith amgylcheddol a thelathrebu;
- sicrhau bod seilwaith amgylcheddol a thelathrebu yn cael ei ddarparu yn y fath fodd fel y gellir bodloni amcanion datblygu cynaliadwy, gan osgoi effeithiau andwyol ar yr amgylchedd (gan gynnwys yr amgylchedd naturiol a'r amgylchedd hanesyddol), cymunedau lleol ac iechyd;
- sicrhau, wrth ystyried y seilwaith amgylcheddol a thelathrebu, bod effeithiau'r newid yn yr hinsawdd wrth leoli, dylunio, adeiladu, gweithredu a, phan fo hynny'n briodol, datgomisiynu'r seilwaith newydd, yn cael eu hystyried (gweler 4.5); a



- sicrhau bod cyn lleied o wendid â phosibl yn perthyn i'r seilwaith er mwyn iddo allu ymdopi ag achosion o dywydd difrifol, a bod y seilwaith wedi'i gynllunio i ymdopi â thymereddau cyfartalog uwch a'r perygl cynyddol o stormydd, sychder a llifogydd.

12.1.5 Mae gan y system gynllunio ran bwysig i'w chwarae yn sicrhau bod y seilwaith hwnnw y mae cymunedau a busnesau yn dibynnu arno yn ddigonol i ymdopi â datblygiadau arfaethedig, er mwyn lliniaru'r perygl i iechyd pobl a'r amgylchedd ac atal llygredd wrth lygad y ffynnon. Mae hynny'n cynnwys cyfyngu i'r eithaf ar yr effeithiau sy'n gysylltiedig â'r newid yn yr hinsawdd.

12.1.6 Dylid ystyried capasiti'r seilwaith presennol, a'r angen am gyfleusterau ychwanegol, wrth baratoi cynlluniau datblygu ac wrth ystyried ceisiadau cynllunio. Yn gyffredinol, dylai awdurdodau cynllunio lleol geisio **defnyddio'r seilwaith presennol i'r eithaf a dylent ystyried sut y gellir cydlynu darpariaeth o wahanol fathau o seilwaith.**

12.1.7 Rhaid i bob awdurdod cynllunio lleol feithrin agwedd strategol a hirdymor tuag at ddarparu seilwaith wrth baratoi cynlluniau datblygu. Yn ogystal ag effeithiau amgylcheddol defnydd ychwanegol o'r fath, dylent ystyried hefyd anghenion lleoli'r cwmnïau cyfleustodau sy'n gyfrifol am y gwasanaethau hyn, er mwyn eu galluogi i fodloni anghenion cymunedau. Mae'n bosibl y bydd angen datblygu graddol, trwy ymgynghori â'r cwmnïau cyfleustodau perthnasol, er mwyn rhoi amser i sicrhau y gellir rheoli'r ddarpariaeth o gyfleustodau mewn modd sy'n gyson â'r polisiau cyffredinol ar ddatblygu cynaliadwy.

12.1.8 Mae'n hanfodol bod awdurdodau cynllunio lleol yn ymgynghori â chwmnïau cyfleustodau ac eraill sy'n darparu seilwaith, yn ogystal â Chyfoeth Naturiol Cymru, mewn da bryd wrth lunio polisiau ar ddefnyddio tir. Mae Canllawiau Llywodraeth Cymru yn *Cynlluniau Datblygu Lleol Cymru* (2005) yn rhoi manylion y cyrff hynny y mae'n rhaid ymgynghori â hwy ynghylch materion penodol i sicrhau bod polisiau'r cynllun yn realistig a bod modd eu cyflawni. Mae'n ofynnol hefyd i awdurdodau lleol ymgynghori â chyrff priodol ac ystyried eu sylwadau wrth benderfynu ar geisiadau cynllunio.

12.2 Rheoli dŵr gwastraff a chyflenwadau dŵr

12.2.1 Wrth lunio cynlluniau datblygu ac wrth ystyried cynigion datblygu, dylai awdurdodau cynllunio lleol hyrwyddo mwy o effeithlonrwydd a rheoli'r galw am adnoddau dŵr, yn enwedig yn yr ardaloedd hynny lle mae'n bosibl nad oes adnoddau dŵr ychwanegol ar gael, gan ystyried yr effaith y gallai hinsawdd sy'n newid ei chael dros oes y datblygiad.

12.2.2 Mae Cyfarwyddeb Fframwaith Dŵr yr UE¹ yn gosod gofynion newydd ar gyfer cynllunio a rheoli dŵr mewn modd integredig, ac mae gan hynny oblygiadau i gynllunio defnydd tir mewn ardaloedd trefol a gwledig.



12.3 Cynlluniau datblygu a dŵr

12.3.1 Dylai cynlluniau datblygu ystyried materion sy'n ymwneud â dŵr yn gynnar yn ystod y broses o nodi tir i'w ddatblygu a'i ailddatblygu. Dylid lleoli datblygiadau newydd, a chynllunio i'w cyflawni, yn y fath fodd fel bod gwasanaethau dŵr cynaliadwy yn cael eu darparu, gan gyfyngu i'r eithaf ar yr effaith y mae'r newid yn yr hinsawdd yn gallu ei chael arnynt. Dylid hyrwyddo defnyddio dulliau a thechnegau dylunio sy'n gwella effeithlonrwydd dŵr² ac sy'n cyfyngu i'r eithaf ar yr effeithiau andwyol ar adnoddau dŵr, ansawdd dŵr wyneb, ecoleg afonydd, ac ar ddŵr daear (gweler 13.3 i 13.4 ac 13.10 i 13.12).

12.4 Rheoli datblygu a dŵr

12.4.1 Mae sicrhau bod cyflenwadau dŵr a'r seilwaith garthffosiaeth yn ddigonol yn ystyriaethau perthnasol wrth ystyried ceisiadau ac apelau cynllunio. Mae'n allweddol cynnal cydbwysedd rhwng y galw cynyddol am ddŵr ac anghenion yr amgylchedd. Hyd yn oed lle ceir capasiti yn ddamcaniaethol, mae angen buddsoddi yn y seilwaith mewn da bryd i sicrhau na fydd y datblygiad newydd yn effeithio'n andwyol ar gyflenwadau dŵr neu ar ansawdd y dŵr, nac ar garthffosiaeth. Mae angen ystyried y materion hyn mewn da bryd wrth leoli datblygiadau yn y dyfodol. Felly, dylai awdurdodau cynllunio lleol annog defnyddio safleoedd lle gellir datrys problemau sydd eisoes yn bodoli o ran y cyflenwad dŵr a/neu'r ddarpariaeth ar gyfer draenio, a dylent geisio osgoi defnyddio safleoedd lle mae'n annhebygol y ceir yno gyflenwad digonol o ddŵr a/neu ddarpariaeth ar gyfer draenio.

12.4.2 Rhaid i gynigion datblygu mewn ardaloedd sydd â charthffosydd gysylltu â'r brif garthffos, a bydd angen i'r datblygwyr ddangos i'r awdurdodau cynllunio bod modd i'r safle sydd ganddynt mewn golwg gysylltu â'r brif garthffos agosaf. Er mwyn bod yn gyson o ran dylunio ac i hwyluso'r gwaith cynnal a chadw yn y tymor hir, dylid creu'r carthffosydd i safon sy'n golygu y gellir eu mabwysiadu, a dylai datblygwyr ymgynghori â chwmnïau carthffosiaeth wrth ddechrau dylunio a chynllunio³ (gweler 4.11).

12.4.3 Dim ond pan nad yw'n bosibl iddynt gysylltu â'r brif garthffos y caiff datblygiadau sy'n cynnig defnyddio cynlluniau draenio nad ydynt yn cysylltu â'r brif system eu hystyried yn dderbyniol⁴. Cyn penderfynu ar y cais cynllunio, dylai cynigion sydd â chynlluniau carthffosiaeth nad ydynt yn cysylltu â'r brif garthffos, er enghraifft y rheini sy'n cynnwys tanciau carthion a chynlluniau draenio dŵr wyneb, gael eu hasesu o ran eu heffeithiau ar yr amgylchedd, amwynder ac iechyd cyhoeddus yr ardal leol, yn unol â'r meini prawf a nodwyd yng Nghylchlythyr 10/99. Dylid ystyried y dalgylch cyfan, gan gynnwys ystyried defnyddio Systemau Draenio Trefol Cynaliadwy, lle y bo modd⁵ (gweler 13.3 i 13.4).



12.5 Cynllunio i reoli gwastraff

12.5.1 Mae polisi cyffredinol Llywodraeth Cymru ar reoli gwastraff i'w gael yn ei dogfen drosfwaol ar reoli gwastraff, *Tuag at Ddyfodol Diwastraff* ac yn y cynlluniau sector cysylltiedig⁶. Dylai awdurdodau cynllunio, mewn egwyddor, gefnogi cyfleusterau sy'n cydasio â'r dyheadau yn y dogfennau hyn, a thrwy hynny adlewyrchu trefn blaenoriaethau'r hierarchaeth gwastraff mor bell ag y gellir.

12.5.2 Mae'r Cynllun Sector Casgliadau, Seilwaith a Marchnadoedd (CSM) yn disgrifio'r fframwaith casglu gwastraff yr ystyrir y bydd yn darparu'r atebion gorau ar gyfer diwallu'r anghenion amgylcheddol, cymdeithasol ac economaidd hyd at 2050⁷. Mae'n dynodi y dylid lleihau'r ddibyniaeth ar waredu ac adfer, o blaid casglu meintiau uwch o ddeunyddiau a ddiolir yn y ffynhonnell, ac wedyn eu hailbroesu (ynghyd ag atal gwastraff a pharatoi gwstraff i'w aildefnyddio). Wrth symud ymlaen i wireddu'r dyheadau hyn, y realiti yw y bydd angen i awdurdodau cynllunio hwyluso, darparu a lleoli amrywiaeth eang o seilwaith gwastraff, gan gynnwys cyfleusterau i adfer gwastraff trefol cymysg, ac efallai cyfleusterau gwaredu ar gyfer gwastraff gweddilliol, na ellir ei drin yn uwch i fyny'r hierarchaeth gwastraff.

12.5.3 Mae gan y system gynllunio defnydd tir gyfraniad pwysig i'w wneud o ran hwyluso rheoli gwastraff yn gynaliadwy, drwy ddarparu fframwaith ar gyfer gwneud penderfyniadau a fydd yn cydnabod y manteision cymdeithasol, economaidd ac amgylcheddol y gellir eu hennill drwy reoli gwastraff fel adnodd i ddiwallu anghenion cymdeithas a busnesau, ac ar yr un pryd:-

- lleihau i'r eithaf unrhyw effeithiau amgylcheddol andwyol ac osgoi risgiau i iechyd dynol;
- diogelu ardaloedd a ddynodwyd ar sail tirwedd a chadwraeth natur rhag datblygu amhriodol; a
- diogelu amwynder preswylwyr, defnyddwyr tir eraill a dulliau eraill o ddefnyddio tir rhag effaith cyfleusterau rheoli gwastraff, presennol neu arfaethedig.

12.5.4 Yn ychwanegol at yr egwyddorion cyffredinol hyn, mae nifer o egwyddorion penodol y dylid eu dilyn wrth ymgymryd â chynllunio ac wrth wneud penderfyniadau. O blith yr egwyddorion hynny, yr hierarchaeth gwastraff sy'n darparu'r man cychwyn allweddol ar gyfer pob math o gynigion rheoli gwastraff; a dylid ystyried yr hierarchaeth honno gyferbyn â'r ystyriaethau cymdeithasol, economaidd ac amgylcheddol ehangach sy'n berthnasol mewn unrhyw achos unigol. Mae'r cysyniad o'r "Weithfa Addas Agosaf" a'r egwyddor hunanddigonolrwydd yn gymwys, yn unig, mewn perthynas â gwastraffau a gwmpesir yn Erthygl 16 o'r Gyfarwyddeb Fframwaith Gwastraff ddiwygiedig (GFFGdd)⁸, a'r egwyddorion hynny ddylai lywio'r gwaith o ddarparu rhwydwaith integredig a digonol ar gyfer trin gwastraffau o'r fath. Dylai'r rhwydwaith gynnwys yr holl gyfleusterau ategol sydd eu hangen, megis gorsafoedd trosglwyddo gwastraff a chyfleusterau prosesu.

12.5.5 Ni fydd rhaid i'r asesiadau gwastraff sy'n gynnwysedig yn y Cynllun Sector CSM gael eu cynnal eilwaith gan awdurdodau cynllunio lleol ar y lefel ranbarthol neu leol. Fodd bynnag, er mwyn goleuo penderfyniadau cynllunio, mae'n bwysig bod pob awdurdod cynllunio lleol yn monitro'r cynnydd a wneir tuag at ddarparu rhwydwaith integredig a digonol o weithfeydd gwaredu gwastraff ac o weithfeydd ar gyfer adfer gwastraff trefol cymysg a gwastraff cyffelyb,



o'r sectorau masnachol a diwydiannol yn ogystal ag aelwydydd preifat⁹. Oherwydd hynny, sefydlir trefniadau monitro i sicrhau y bydd gwybodaeth ar gael yn gyson am y sefyllfa gyfoes er mwyn goleuo penderfyniadau. Rhoddir rhagor o wybodaeth am y trefniadau ar gyfer monitro a darparu adroddiadau monitro ar reoli gwastraff (ac adroddiadau atodol pan fo angen) yn TAN 21: Gwastraff.

12.5.6 Mae gan Gyfoeth Naturiol Cymru rôl statudol ynglŷn â rheoli a rheoleiddio gwastraff a chasglu data ar gynhyrchu a rheoli gwastraff. Mae ganddo'r rôl allweddol o ddarparu cyngor arbenigol i awdurdodau cynllunio fel rhan o'r gwaith o baratoi cynlluniau datblygu lleol, gweithredu fel ymgynghorai ar geisiadau cynllunio penodol, cynorthwyo awdurdodau cynllunio i werthuso gwybodaeth gymhleth ynghylch gwastraff, a gwneud dyfarniadau technegol pan fo angen. Bydd Cyfoeth Naturiol Cymru'n cyfrannu at ddatblygu a gweithredu'r trefniadau monitro a amlinellir yn fanylach yn TAN 21: Gwastraff, drwy ddarparu data ac arbenigedd.

12.6 Cynlluniau datblygu a rheoli gwastraff

12.6.1 Dylai cynlluniau datblygu lleol ddangos sut y mae'r polisi gwastraff cenedlaethol, ac yn enwedig y Cynllun Sector CSM, ynghyd ag unrhyw safbwynt a fabwysiedir yn diweddarach mewn adroddiadau ar fonitro'r cynllunio gwastraff ac unrhyw fath arall o flaenoriaethau rheoli gwastraff sy'n berthnasol i'r ardal leol, wedi eu cymryd i ystyriaeth.

12.6.2 Wrth hwyluso darpariaeth ar gyfer rheoli gwastraff yn gynaliadwy, dylid ystyried bod canfod lleoliadau addas ar gyfer datblygiad o'r fath yn rhan o'r gwaith o baratoi cynllun, gan gydnabod mai'r lleoliadau mwyaf addas fydd y rheini a fyddai'n amharu leiaf ar y boblogaeth leol a'r amgylchedd ac sydd â'r potensial gorau i gyfrannu at fframwaith seilwaith eang. Rhoddir cyngor pellach ar ymateb i faterion gwastraff drwy gynlluniau datblygu yn TAN21: Gwastraff.

12.6.3 Yn ychwanegol, dylai strategaethau a pholisiau cynlluniau datblygu, gan gynnwys unrhyw ddyraniadau penodol, geisio sicrhau cyfleoedd i leihau neu ailgylchu gwastraff fel rhan o'r dull o ddylunio, adeiladu a defnyddio adeiladau newydd. Rhoddir cyngor pellach ar ddylunio cynaliadwy yn TAN 12: Dylunio a TAN 21: Gwastraff.

12.7 Rheoli datblygu a chynllunio gwastraff

12.7.1 Dylai penderfyniadau ar gynigion rheoli gwastraff gael eu gwneud yn unol â'r cynllun datblygu perthnasol ar gyfer yr ardal. Bydd y graddau y mae cynnig yn dangos ei fod yn cyfrannu i'r amcanion, y polisi, y targedau a'r asesiadau rheoli gwastraff a gynhwysir yn y polisi gwastraff cenedlaethol, yn ystyriaeth gynllunio berthnasol.

12.7.2 Rhaid i'r buddion a all ddeillio o gynigion ar gyfer cyfleusterau rheoli gwastraff, yn ogystal ag effaith y cynigion ar amwynder y bobl leol ac ar yr amgylchedd naturiol ac adeiledig, gael eu hasesu'n ddigonol er mwyn penderfynu a yw cais cynllunio'n dderbyniol; ac os na ellir lliniaru effeithiau andwyol ar yr amwynder neu'r amgylchedd, dylid gwrthod caniatâd cynllunio. Rhoddir cyngor pellach ar egwyddorion cynllunio cyffredinol a phenodol ac ystyriaethau cynllunio manwl yn TAN 21: Gwastraff.



2.7.3 Dylid cynnwys gofod a chyfleusterau digonol ar gyfer casglu, compostio ac ailgylchu deunyddiau gwastraff yn rhan o ddyluniad unrhyw ddatblygiad; a dylai datblygwyr wneud pob ymdrech i atal gwastraff yn ystod y camau dylunio, adeiladu a dymchwel¹⁰. Dylid chwilio am bob cyfle i aildefnyddio deunyddiau a chynnwys cynhyrchion a ailgylchwyd wrth godi adeilad neu adeiledd newydd. Gellid cynnwys gwybodaeth am ymdrechion o'r fath mewn Datganiadau Dylunio a Mynediad. Rhoddir cyngor pellach ar Ddylunio Cynaliadwy yn TAN 12: Dylunio a Canllawiau Ymarfer – Cynllunio ar gyfer Adeiladau Cynaliadwy.

12.7.4 Disgwylir i awdurdodau cynllunio, adrannau perthnasol eraill yr awdurdodau lleol a Chyfoeth Naturiol Cymru gydweithio'n glòs i sicrhau bod yr amodau a osodir ar ganiatadau cynllunio ac ar Drwyddedau Amgylcheddol yn ategu, ac nid yn dyblygu, ei gilydd. Fodd bynnag, bydd angen i'r awdurdodau cynllunio lleol fodloni eu hunain fod modd rheoleiddio unrhyw gynigion yn effeithiol, a dylai Cyfoeth Naturiol Cymru eu cynorthwyo i benderfynu ynglŷn â hynny. O dan amgylchiadau penodol, pan fo'r cynigion yn rhai cymhleth, byddai'n arfer da annog ymdrin â'r cais cynllunio ochr yn ochr a chais am drwydded amgylcheddol.

12.8 Ynni adnewyddadwy ac Ynni Carbon Isel

12.8.1 Mae'r DU yn ddarostyngedig i ofynion Cyfarwyddeb Ynni Adnewyddadwy yr UE. Mae'r rhain yn cynnwys targed i'r DU sicrhau bod 15% o'i hynni yn dod o ffynonellau adnewyddadwy erbyn 2020¹¹. Mae Map Ffyrdd Ynni Adnewyddadwy y DU yn nodi'r trywydd y dylai'r DU ei ddilyn i gyflawni'r targedau hyn, hyrwyddo ynni adnewyddadwy i atal y newid yn yr hinsawdd a diogelu cyflenwadau ynni yn y dyfodol¹². Mae Llywodraeth Cymru wedi ymrwmo i wneud ei rhan drwy gyflawni rhaglen ynni sy'n cyfrannu at ostwng allyriadau carbon fel rhan o'n gwaith i fynd i'r afael â'r newid yn yr hinsawdd (gweler 4.5) tra'n hyrwyddo lles economaidd, cymdeithasol ac amgylcheddol pobl a chymunedau Cymru er mwyn sicrhau gwell ansawdd bywyd i'n cenhedlaeth ni a chenedlaethau'r dyfodol. Amlinellir hyn yn Natganiad Polisi Ynni Llywodraeth Cymru *Ynni Cymru: Newid Carbon Isel* (2012)¹³.

12.8.2 Dylai polisiâu cynllunio ar bob lefel hwyluso cyflawni'r uchelgais a fynegir yn *Ynni Cymru: Newid Carbon Isel* a thargedau'r DU ac Ewrop ar ynni adnewyddadwy. Mae'r Gyfarwyddeb Ynni Adnewyddadwy¹⁴ yn cynnwys rhwymedigaethau penodol er mwyn ei gwneud yn haws mynd ati'n effeithiol i ystyried ffynonellau ynni adnewyddadwy, technoleg hynod effeithiol a systemau gwresogi ac oeri ardal yng nghyd-destun datblygu ardaloedd diwydiannol a phreswyl. Hefyd (o 1 Ionawr 2012 ymlaen) bydd yn ei gwneud yn ofynnol bod pob adeilad cyhoeddus newydd, ac adeilad cyhoeddus presennol sy'n cael ei ailwampio, yn batrwm i eraill yng nghyd-destun y Gyfarwyddeb. Mae'r materion sydd wrth graidd y dyletswyddau hyn yn rhai y bu'r polisi cynllunio yn canolbwyntio arnynt ers tro byd yng Nghymru. Yn y cyd-destun hwn, dylai awdurdodau cynllunio lleol a datblygwyr fel ei gilydd dalu sylw penodol i'r canllawiau a geir yn Nodyn Cyngor Technegol 8: Cynllunio ar gyfer Ynni Adnewyddadwy¹⁵ a Cynllunio ar gyfer Ynni Adnewyddadwy – Llawlyfr i Gynllunwyr¹⁶. Serch hynny, bydd Llywodraeth Cymru yn ystyried paratoi canllawiau eraill wedi'u targedu, lle bo hynny'n briodol.



12.8.3 Mae'r mecanweithiau ar gyfer gwireddu'r rhan fwyaf o'n dyheadau ynni y tu hwnt i reolaeth y system gynllunio ac felly nid ydynt yn cael eu hystyried yma. Mae'r broses gydsynio ar gyfer prosiectau ynni adnewyddadwy yng Nghymru yn dibynnu ar faint a lleoliad y datblygiad ynni adnewyddadwy arfaethedig, a chrynoir y rhain yn Ffigur 12.2.

Ffigur 12.1 Y cyrff cydsynio cyfredol ar gyfer gosodiadau trydan

Maint y gosodiad	Corff cydsynio cyfredol
<50MW ar y tir	Awdurdodau Lleol a Gweinidogion Cymru
>50MW ar y tir	Yr Ysgrifennydd Gwladol dros Ynni a Newid Hinsawdd/ Y Comisiwn Cynllunio Seilwaith/Yr Ysgrifennydd Gwladol perthnasol

12.8.4 O ran y system gynllunio y prif gyfrifoldeb yw datblygiadau ar y tir sy'n cynhyrchu llai na 50MW, er bod y cyfrifoldeb am gymeradwyo caniatadau cysylltiedig ac ategol mewn perthynas â chynigion dros 50MW fel arfer yn cael ei ddatganoli i gyrff a sefydliadau cyfrifol yng Nghymru. At hynny, efallai y bydd yn rhaid i awdurdodau cynllunio lleol benderfynu ynghylch cyfleusterau ar y tir sy'n gysylltiedig â datblygiadau ar y môr.

12.8.5 Dylai awdurdodau cynllunio lleol, yn enwedig y rheini sy'n cynnwys Ardaloedd Chwilio Strategol, ystyried gofynion Llywodraeth Cymru o ran ynni adnewyddadwy pan ymgynghorir â hwy ynghylch ceisiadau am brosiectau mawr ynni'r gwynt ar y môr y mae'r Gyfarwyddiaeth Seilwaith Cenedlaethol yn yr Arolygiaeth Gynllunio yn eu hystyried.

12.8.6 Nod Llywodraeth Cymru yw sicrhau cyfuniad priodol o ddarpariaeth ynni i Gymru a fydd yn cynyddu i'r eithaf y buddion i'n heconomi a'n cymunedau, tra'n lleihau i'r eithaf y posibilrwydd o ddrwg effeithiau amgylcheddol a chymdeithasol. Mae hyn yn rhan o nod Llywodraeth Cymru i sefydlu'r polisiau datblygu economaidd cadarnaf yn sail i dwf a llewyrch yng Nghymru, gan gydnabod pa mor bwysig yw ynni glân a defnyddio adnoddau naturiol yn effeithlon, fel sbardun economaidd ac fel ymrwymiad i ddatblygu cynaliadwy¹⁷.

12.8.7 At ddibenion y polisi cynllunio, ynni adnewyddadwy yw'r term a ddefnyddir i gyfeirio at y ffynonellau hynny o ynni, ar wahân i danwydd ffosil neu danwydd niwclear, sydd ar gael yn barhaus ac yn gynaliadwy yn ein hamgylchedd. Mae'r rhain yn cynnwys gwynt, dŵr, haul, ynni geothermol a deunydd o blanhigion (biomas). Gellir defnyddio'r ffynonellau ynni hyn i gynhyrchu pŵer, gwres, a thanwyddau (ar gyfer trafndiaeth), yn ogystal ag i oeri, drwy amrywiaeth o dechnolegau ynni adnewyddadwy megis paneli solar a thyrbinau gwynt. At ddibenion y polisi cynllunio, ynni carbon isel yw'r term a ddefnyddir ar gyfer technolegau sy'n defnyddio ynni yn effeithlon (ond nid yw'n cynnwys ynni niwclear). Bydd datblygiadau ynni adnewyddadwy a charbon isel i'w gweld mewn gwahanol fathau o sefyllfaoedd, megis rhai:

- sy'n rhan annatod o adeilad;
- sy'n annibynnol â chysylltiad uniongyrchol â'r grid;
- a adeiladwyd o fewn datblygiad newydd (ee gwres a phŵer cyfunedig ar gyfer datblygiadau cyfan);



- sy'n darparu gwres ar gyfer nifer o adeiladau (ee gwresogi ardal);
- sy'n darparu tanwydd ar gyfer cludiant;
- sy'n oeri.

12.8.8 Mae Llywodraeth Cymru wedi ymrwmo i ddefnyddio'r system gynllunio i:

- sicrhau bod cymaint â phosibl o ynni adnewyddadwy yn cael ei gynhyrchu;
- sicrhau bod cymaint â phosibl o ynni carbon isel yn cael ei gynhyrchu;
- hwyluso systemau gwres a phŵer cyfunedig (a systemau oeri, gwres a phŵer cyfunedig) lle y bo'n ymarferol;
- cydnabod bod manteision ynni adnewyddadwy yn rhan o'r ymrwymiad cyffredinol i fynd i'r afael â'r newid yn yr hinsawdd drwy leihau allyriadau nwyon tŷ gwydr, yn ogystal â gwella diogelwch ffynonellau ynni.

12.8.9 Dylai awdurdodau cynllunio lleol hwyluso datblygu pob math o ynni adnewyddadwy a charbon isel er mwyn symud tuag at economi carbon isel (gweler 4.4.2) i helpu i fynd i'r afael â'r ffactorau sy'n achosi'r newid yn yr hinsawdd (gweler 4.7.3). Yn benodol, dylent wneud darpariaeth gadarnhaol ar gyfer datblygiadau o'r fath drwy:

- ystyried y cyfraniad y gall eu hardal ei wneud tuag at ddatblygu a hwyluso ynni adnewyddadwy a charbon isel, a sicrhau bod polisiâu cynlluniau datblygu yn helpu i gyflawni'r cyfraniad hwnnw;
- sicrhau bod penderfyniadau rheoli datblygu yn gydnaws â'r rhwymedigaethau cenedlaethol a rhyngwladol mewn perthynas â'r newid yn yr hinsawdd, gan gynnwys cyfraniadau at dargedau a dyheadau ynni adnewyddadwy;
- cydnabod y cyfleoedd amgylcheddol, economaidd a chymdeithasol y gall defnyddio ffynonellau ynni adnewyddadwy eu cynnig i gynllunio ar gyfer cynaliadwyedd (gweler Pennod 4);
- sicrhau bod pob adeilad newydd sy'n cael ei godi neu ei gynorthwyo ag arian cyhoeddus yn gosod safonau ar gyfer cadwraeth ynni a chynhyrchu ynni adnewyddadwy sy'n batrwm i eraill¹⁸.

12.8.10 Ar yr un pryd, dylai awdurdodau cynllunio lleol:

- sicrhau y rhoddir sylw i rwymedigaethau statudol rhyngwladol a chenedlaethol i ddiogelu ardaloedd, rhywogaethau a chynefinoedd dynodedig a'r amgylchedd hanesyddol;
- mynnu bod camau'n cael eu cymryd i gyfyngu ar unrhyw effeithiau niweidiol posibl ar gymunedau lleol tra'n sicrhau bod yr effaith bosibl ar hyfywedd economaidd yn cael ei hystyried yn llawn;
- annog cynhyrchu cymaint â phosibl o ynni adnewyddadwy a charbon isel mewn datblygiadau newydd er mwyn hwyluso'r symud tuag at adeiladau di-garbon (gweler 4.11 a 4.12).

12.8.11 Wrth liniaru'r ffactorau sy'n achosi'r newid yn yr hinsawdd (gweler 4.11.2) dylai cynigion ar gyfer datblygiadau, ar ôl lleihau'r galw am ynni, ddefnyddio cymaint â phosibl o ynni o ffynonellau adnewyddadwy a charbon isel. Dylai datblygwyr ystyried y gofynion yn y dyfodol o ran lleihau carbon mewn adeiladau newydd, yn sgil newidiadau i Reoliadau Adeiladu Cymru.



12.8.12 Dros y tymor byr i ganolig, ynni gwynt (o blith y gweithgareddau sydd o dan reolaeth y system gynllunio yng Nghymru) fydd â'r potensial mwyaf i gynhyrchu ynni adnewyddadwy. Mae gwynt yn adnodd y mae digonedd ohono yng Nghymru ac o safbwynt masnachol defnyddio'r adnodd hwnnw sydd, hyd yma, yn parhau yn ffordd fwyaf hyfyw o gynhyrchu ynni adnewyddadwy. Mae Llywodraeth Cymru yn derbyn bod angen meddwl yn ofalus cyn cyflwyno strwythurau newydd, sy'n aml yn fawr iawn, at ddibenion cynhyrchu ynni o'r gwynt, er mwyn osgoi eu heffaith neu, os nad yw hynny'n bosibl, sicrhau cyn lleied â phosibl o effaith. Fodd bynnag, mae ynni'r gwynt yn rhan allweddol o gyflawni gweledigaeth Llywodraeth Cymru, a amlinellir yn y Datganiad Polisi Ynni (2010), ar gyfer cynhyrchu trydan adnewyddadwy yn y dyfodol, a dylai'r rheini sy'n gwneud penderfyniadau ystyried hyn wrth benderfynu ar geisiadau o'r fath.

12.8.13 Y raddfa fwyaf priodol ar gyfer nodi ardaloedd i leoli datblygiadau mawr ar gyfer ynni gwynt ar y tir yw graddfa Cymru gyfan. Mae Nodyn Cyngor Technegol 8: Cynllunio ar gyfer Ynni Adnewyddadwy (2005) yn nodi ardaloedd yng Nghymru sydd, ar sail ymchwil empeiraidd sylweddol, yn cael eu hystyried ymhlith y rhai mwyaf addas ar gyfer lleoli datblygiadau ffermydd gwynt mawr. Cyfeirir at yr ardaloedd hyn fel Ardaloedd Chwilio Strategol. Mae nodweddion manwl Ardaloedd Chwilio Strategol a'r fethodoleg a ddefnyddir i'w diffinio i'w cael yn TAN 8 a'i Atodiadau. Bydd angen datblygu nifer gyfyngedig o ddatblygiadau ynni gwynt mawr (dros 25MW) yn yr ardaloedd hyn fel y gellir cyfrannu'n sylweddol at ddyhead ynni adnewyddadwy Llywodraeth Cymru o sicrhau 2GW o gyfanswm capasiti drwy ynni gwynt ar y tir erbyn 2015/17 (gweler Ffigur 12.1). Bydd hefyd yn cyfrannu'n gadarnhaol at dargedau ynni adnewyddadwy y DU ac Ewrop, yn lliniaru'r newid yn yr hinsawdd a diogelu ffynonellau ynni.

12.8.14 Dylid mabwysiadu dull integredig o gynllunio ar gyfer datblygiadau ynni adnewyddadwy a charbon isel, ac ar gyfer rhagor o seilwaith ar gyfer rhwydwaith y grid trydan. Bydd angen rhagor o seilwaith ar gyfer rhwydwaith y grid trydan i gynnal yr Ardaloedd Chwilio Strategol a dylai awdurdodau cynllunio lleol hwyluso datblygiadau i'r grid, pan gyflwynir cynigion priodol, a hynny os bydd y ffermydd gwynt sydd i'w cysylltu yn ardal eu hawdurdod ai peidio. O fewn yr Ardaloedd Chwilio Strategol, er y gall effaith gronol fod yn ystyriaeth berthnasol, rhaid cynnal cydbwysedd rhwng hynny a'r angen i fodloni dyheadau Llywodraeth Cymru ar gyfer ynni yng Nghymru a chyfiawnhau'r casgliadau a gyrhaeddir yn llawn wrth wneud unrhyw benderfyniad. Bydd angen i ddatblygwyr fod yn sensitif i amgylchiadau lleol, gan gynnwys lleoli datblygiadau yn unol â thirffurfiau lleol, pa mor agos ydynt at aneddiadau, ac ystyriaethau eraill o ran cynllunio. Yn gyffredinol, ni fydd datblygu ffermydd gwynt mawr neu gynlluniau ynni adnewyddadwy a charbon isel eraill ar raddfa fawr yn briodol mewn ardaloedd a safleoedd sydd wedi'u dynodi yn rhyngwladol neu yn genedlaethol (gweler adrannau 5.3 a 6.5)¹⁹.

12.8.15 Bydd gwahanol ddatblygiadau ynni adnewyddadwy a'r seilwaith cysylltiedig yn cael gwahanol effeithiau, gan ddibynnu ar eu math, eu lleoliad a'u graddfa. Bydd hyn yn golygu bod angen gwahanol ystyriaethau polisi ac ystyriaethau rheoli datblygu²⁰. At ddibenion cynllunio, dyma'r graddfeydd:



Ffigur 12.2 – Graddfeydd datblygiadau ynni adnewyddadwy a charbon isel at ddibenion cynllunio

Graddfa'r datblygiad	Trothwy (trydan a gwres)
Strategol	Dros 25MW ar gyfer ynni gwynt ar y tir a Dros 50MW ar gyfer pob technoleg ynni adnewyddadwy arall
Yr Awdurdodau Lleol	Rhwng 5MW a 25MW ar gyfer ynni gwynt ar y tir a Rhwng 5MW a 50MW ar gyfer pob technoleg arall
Llai na Graddfa'r Awdurdodau Lleol	Rhwng 50kW a 5MW
Micro	0 dan 50kW

12.8.16 At ddibenion ceisiadau cynllunio, dylid cydnabod y gall rhai mathau o dechnolegau ynni adnewyddadwy a charbon isel fod yn rhan o osodiad unigol (h.y. un panel solar neu un gwaith biomas) neu wedi'i gyfuno â gosodiadau unigol eraill yn rhan o gynnyg mwy (ee casgliad o baneli solar neu fferm wynt).

12.8.17 Ar hyn o bryd Llywodraeth y DU, yn unol â chynghor y Gyfarwyddiaeth Seilwaith Cenedlaethol yn yr Arolygiaeth Gynllunio, sy'n caniatáu prosiectau ynni adnewyddadwy o 50MW neu fwy ar raddfa strategol. Mae'r penderfyniadau ar ganiatadau ategol, megis Gorchmynion Cadw Coed a Hawliau Tramwy Cyhoeddus, sy'n gysylltiedig â datblygiadau arfaethedig dros 50MW yn dal i gael eu gwneud yng Nghymru ac mae Llywodraeth Cymru yn disgwyl i benderfyniadau ar ddatblygiadau ategol a chysylltiedig gael eu gwneud yn brydlon.

12.8.18 Dylai awdurdodau cynllunio lleol hwyluso datblygiadau ynni adnewyddadwy ar raddfa'r awdurdodau lleol mewn cynlluniau datblygu drwy gynnal asesiad o'r cyfleoedd a'r potensial ar gyfer ynni adnewyddadwy yn yr ardal. Dylent hefyd chwilio am gyfleoedd i gydleoli datblygiadau mawr fel y gellir cynyddu potensial ynni adnewyddadwy i'r eithaf a hybu cynlluniau gwresogi ardal (gweler 12.9).

12.8.19 Mae Tariffau Cyflenwi Trydan²¹ yn rhoi cymorth ariannol i brosiectau yn y categori ar raddfa llai na graddfa'r awdurdodau lleol drwy fynnu bod cyflenwyr ynni yn gwneud taliadau rheolaidd i gwsmeriaid sy'n cynhyrchu eu trydan eu hunain. Terfyn uchaf y Tariffau Cyflenwi Trydan yw 5MW ar hyn o bryd. Mae potensial i gymunedau a chwmnïau bach fuddsoddi ym mherchnogaeth prosiectau ynni adnewyddadwy neu ddatblygu eu prosiectau eu hunain er budd yr ardal leol. Polisi Llywodraeth Cymru yw cefnogi prosiectau ynni adnewyddadwy sy'n cael eu sbarduno gan gymunedau²² lle y bydd manteision o'r prosiectau yn cael eu rhoi yn ôl i'r cymunedau hynny. Dylai awdurdodau lleol sicrhau bod polisiau'r cynllun datblygu yn gefnogol i brosiectau sy'n elwa ar Dariffau Cyflenwi Trydan neu sy'n gymwys i elwa arnynt.

12.8.20 Ar hyn o bryd mae'r rhan fwyaf o'r offer bach domestig (microgynhyrchu) yn elwa ar hawliau datblygu a ganiateir, ac fel arfer ni fydd angen caniatâd cynllunio, yn amodol ar feini prawf penodol^{23 24}.

12.8.21 Mae'r adnodd ynni morol ger arfordir Cymru yn cynnig cyfle unigryw i gynhyrchu meintiau sylweddol o ynni adnewyddadwy yn ogystal â sefydlu marchnadoedd newydd yng Nghymru. Mae angen caniatâd y Sefydliad Rheoli Morol ar gyfer datblygiadau ynni adnewyddadwy morol sydd dros 1MW, ac Arolygiaeth Gynllunio'r DU²⁵ sy'n gyfrifol am ystyried unrhyw ddatblygiad dros 100MW. Fodd bynnag, yn achos llawer o'r cyfleusterau morol a fydd yn cynhyrchu ynni adnewyddadwy, bydd angen caniatâd cyllunio ar gyfer adeileddau atodol ar y tir, a dylai awdurdodau cynllunio lleol sicrhau bod penderfyniadau ynghylch yr adeileddau atodol hyn yn cael eu gwneud yn brydlon.

12.9 Cynlluniau datblygu ac ynni adnewyddadwy a charbon isel

12.9.1 Dylai awdurdodau cynllunio lleol gynllunio'n gadarnhaol ar gyfer pob math o ddatblygiadau ynni adnewyddadwy a charbon isel gan ddefnyddio tystiolaeth gyfredol a phriodol.

12.9.2 Dylai awdurdodau cynllunio lleol roi arweiniad i ddatblygiadau ynni adnewyddadwy a charbon isel drwy gynnal asesiad o botensial yr holl adnoddau ynni adnewyddadwy a chyfleoedd ynni adnewyddadwy a charbon isel yn eu hardal, a dylent gynnwys polisiau priodol yn eu cynlluniau datblygu. Anogir awdurdodau cynllunio lleol i gydweithredu er mwyn casglu tystiolaeth fesul ardal is-ranbarthol lle bynnag y bo hynny'n bosibl²⁶.

12.9.3 Wrth gynnal asesiadau o'r fath a phennu targedau lleol, dylai awdurdodau cynllunio lleol sefydlu sylfaen dystiolaeth sy'n:

- ystyried y cyfraniad y gall eu hardaloedd lleol ei wneud at ostwng allyriadau carbon a chynhyrchu ynni adnewyddadwy a charbon isel;
- cydnabod y bydd sawl gwahanol ffordd o ddefnyddio technolegau ynni adnewyddadwy a charbon isel;
- nodi'r potensial ymarferol a hygyrch i ddefnyddio adnoddau ynni adnewyddadwy yn eu hardal (gan gynnwys gwres), ac ystyried sut y bydd yr adnodd hwn yn debygol o gael ei ddefnyddio dros gyfnod y cynllun;
- ystyried yr effeithiau a'r cyfleoedd amgylcheddol, cymdeithasol ac economaidd yn sgil datblygiadau ynni adnewyddadwy a charbon isel;
- ystyried effeithiau cronol datblygiadau ynni adnewyddadwy a charbon isel;
- ystyried y mecanweithiau tebygol ar gyfer penderfynu ar geisiadau ar gyfer safleoedd, ar sail eu potensial a'u hallbwn gwirioneddol;
- ystyried materion sy'n ymwneud â chysylltu â'r grid ac â'r rhwydwaith trafniadaeth.

12.9.4 Ar y raddfa strategol dylai cynlluniau datblygu, lle y bo'n berthnasol, ddarparu polisiau i egluro lle yn yr Ardaloedd Chwilio Strategol y bydd datblygiadau ynni gwynt ar raddfa strategol yn debygol o gael caniatâd, er enghraifft drwy nodi meini prawf microleoli lleol neu leoliadau penodol a ffefrir. Wrth lunio ffiniau'r Ardaloedd Chwilio Strategol caniatawyd rhywfaint o ryddid i fireinio'n lleol. Fodd bynnag, wrth ddiffinio lleoliadau neu feini prawf o'r fath, bydd yn bwysig sicrhau na chaiff ffiniau dangosol yr Ardaloedd Chwilio Strategol, fel y'u nodir yn TAN 8, eu newid yn sylweddol heb dystiolaeth leol.



12.9.5 Os bydd yn briodol, dylai cynlluniau datblygu gynnwys polisiau ar ddatblygiadau ynni adnewyddadwy strategol mewn ardaloedd y tu allan i Ardaloedd Chwilio Strategol, gan sicrhau bod y cynlluniau hynny'n seiliedig ar asesiadau'r awdurdod lleol o ynni adnewyddadwy.

12.9.6 Ar wahân i brosiectau ynni gwynt ar y tir, prosiectau biomas ar raddfa strategol yw'r math o osodiad ynni adnewyddadwy sydd fwyaf tebygol o gael ei ystyried drwy'r broses gynllunio. Nid yw cynaliadwyedd y ffynonellau tanwydd biomas yn ystyriaeth gynllunio.

12.9.7 Yn gyffredinol nid ydym eto wedi manteisio ar y potensial i ddatblygu datblygiadau ynni adnewyddadwy a charbon isel ar dir llwyd trefol/diwydiannol. Mae'n bosibl bod mwy o gyfleoedd i ddatblygu cynlluniau gwynt neu gynlluniau ynni adnewyddadwy eraill ar dir llwyd trefol/diwydiannol.

12.9.8 Hefyd dylai awdurdodau cynllunio lleol fanteisio i'r eithaf ar y cyfleoedd i sefydlu cynlluniau gwresogi ardal a chynhyrchu ynni yn eu cynllun datblygu drwy gydleoli cynigion newydd a dyraniadau tir o fewn datblygiadau presennol, yn ogystal â chydleoli defnyddwyr a chyflenwyr mawr o wres.

12.9.9 Mae prosiectau ynni adnewyddadwy ar raddfa lai na graddfa'r awdurdodau lleol yn gymwys ym mhob rhan o Gymru a dylai'r holl gynlluniau datblygu gynnwys polisiau sy'n annog datblygiadau o'r fath ac yn nodi'n glir y meini prawf lleol y gwerthusir cynigion o'r fath yn eu herbyn.

12.10 Rheoli datblygu ac ynni adnewyddadwy a charbon isel

12.10.1 Wrth benderfynu ar geisiadau am ddatblygiadau ynni adnewyddadwy a charbon isel a seilwaith cysylltiedig, dylai awdurdodau cynllunio lleol ystyried:

- cyfraniad y cynnig at fodloni targedau a'r potensial a bennwyd yn genedlaethol²⁷, a chan y DU ac Ewrop, ar gyfer ynni adnewyddadwy, gan gynnwys y cyfraniad at dorri allyriadau nwyon tŷ gwydr;
- y manteision a'r cyfleoedd amgylcheddol, cymdeithasol ac economaidd ehangach yn sgil datblygiadau ynni adnewyddadwy a charbon isel;
- yr effaith ar y dreftadaeth naturiol (gweler 5.5), yr arfordir (gweler 5.6) a'r amgylchedd hanesyddol (gweler 6.5);
- yr angen i leihau'r effeithiau ar gymunedau lleol er mwyn diogelu ansawdd bywyd cenedlaethau heddiw ac yfory;
- ffyrdd o osgoi neu liniaru effeithiau andwyol a nodwyd, neu i wneud yn iawn amdanynt;
- effeithiau'r newid yn yr hinsawdd ar leoliad a dyluniad datblygiad ynni adnewyddadwy a charbon isel, y modd y caiff ei adeiladu a'r modd y caiff ei weithredu. Wrth wneud hynny, dylai ystyried a ydy'r mesurau i ymaddasu i effeithiau'r newid yn yr hinsawdd yn arwain at effeithiau eraill (gweler 4.5);



- materion sy'n ymwneud â'r cysylltiad â'r grid, pan gynigir datblygiadau ynni adnewyddadwy (trydan);
- gallu'r seilwaith trafndiaeth, a'r effeithiau arno, yn gysylltiedig ag adeiladu neu weithredu'r cynnig.

12.10.2 Efallai y bydd cyfleoedd i hybu cynlluniau Gwres a Phŵer Cyfunedig ac mae Llywodraeth Cymru yn annog y prosiectau hyn fel rhan o'r ymdrechion sydd eu hangen er mwyn lleihau allyriadau carbon.

12.10.3 Dylai datblygwyr datblygiadau ynni adnewyddadwy a charbon isel geisio osgoi effeithiau andwyol neu, lle nad yw hynny'n bosibl, eu lleihau, drwy ystyried yn ofalus leoliad, graddfa, dyluniad a mesurau eraill.

12.10.4 Dylai awdurdodau cynllunio lleol, lle bo'n berthnasol, ystyried effaith debygol unrhyw ddatblygiad arfaethedig ar gyfer ynni adnewyddadwy a charbon isel ar ddatblygiadau a ffynonellau presennol neu arfaethedig eraill o ynni adnewyddadwy a charbon isel. Mewn achosion o'r fath dylent ystyried diwygiadau er mwyn sicrhau eu bod yn dderbyniol.

12.10.5 Mae Llywodraeth Cymru yn cefnogi'r egwyddor o sicrhau manteision cymunedol cynaliadwy i'r cymunedau hynny sy'n gartref i ddatblygiadau, drwy drefniadau gwirfoddol. Ni ddylai trefniadau o'r fath effeithio ar y broses o wneud penderfyniadau ac ni ddylent fod yn ystyriaeth berthnasol oni bai eu bod yn pasio'r profion a nodir yng Nghylchlythyr 13/97²⁸.

12.10.6 Dylai awdurdodau lleol ddefnyddio amodau neu rwymedigaethau cynllunio (gweler 3.6 a 3.7) i liniaru effeithiau cynnig am ddatblygiad ynni adnewyddadwy a charbon isel, ac i sicrhau'r manteision a'r cyfleoedd sy'n codi yn ei sgil. Gallai hyn gynnwys gorfodi gwaith i ddatgomisiynu datblygiadau a seilwaith cysylltiedig ac adfer safleoedd ar ddiwedd eu hoes, rheoli smudiadau trafndiaeth a chynnal gwaith priffyrdd.

12.11 Telathrebu²⁹

12.11.1 Mae Llywodraeth Cymru yn cydnabod bod seilwaith telathrebu fforddiadwy, diogel sy'n hygyrch dros ardal eang yn bwysig i ddinasyddion a busnesau ledled Cymru. Mae'n bwysig bod y seilwaith telathrebu yng Nghymru yn gallu bodloni'r her hwn, gan helpu i adeiladu economi ffyniannus yng Nghymru. I'r perwyl hwn, mae Llywodraeth Cymru yn cydweithio â'r diwydiant telathrebu a'r corff rheoleiddio cyfathrebu, Ofcom, i rannu gwybodaeth am faterion sy'n gysylltiedig â'r seilwaith telathrebu, i ddeall y ffactorau rheoleiddiol, economaidd a chynllunio sy'n rhwystro buddsoddiadau ac i ddylanwadu ar lunio polisiau yn y maes hwn yn y dyfodol. Mae gan Llywodraeth Cymru bolisiau sefydledig ar gyfer diogelu cefn gwlad ac ardaloedd trefol – yn enwedig y Parciau Cenedlaethol, Ardaloedd o Harddwch Naturiol Eithriadol, Safleoedd o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig, yr Arfordir Treftadaeth ac ardaloedd ac adeiladau o bwys pensaernïol neu hanesyddol (gweler y manylion ym Mhenodau 5 a 6). Anogir awdurdodau cynllunio lleol i ymateb yn gadarnhaol i gynigion ar gyfer cynigion datblygu telathrebu, gan hefyd ystyried y cyngor ar ddiogelu ardaloedd trefol a gwledig.



12.12 Cynlluniau datblygu a thelathrebu

12.12.1 Dylai cynlluniau datblygu nodi polisiau a chynigion ar gyfer lleoli datblygiadau telathrebu, gan neilltuo safleoedd ar gyfer datblygiadau mawr a chynnwys polisiau sy'n seiliedig ar feini prawf i arwain datblygiadau telathrebu pan fydd safleoedd heblaw am y rhai a nodir yn y cynllun yn cael eu cynnig.

12.12.2 Dylai'r meini prawf fod yn ddigon hyblyg i ddarparu ar gyfer newidiadau technegol. Gallent fod yn berthnasol i leoliad a golwg offer, gan gynnwys gofynion lleoli a thirwedd, a ddyluniwyd i gyfyngu i'r eithaf yr effaith ar amwynder, mewn modd sy'n gyson â gofynion gweithredol.

12.13 Rheoli datblygu a thelathrebu

12.13.1 Mae'r gwaith o osod llawer o systemau telathrebu yn dod o dan hawliau datblygu a ganiateir³⁰, a gall y manylion ynghylch lleoliad a golwg fod yn amodol ar gael caniatâd ymlaen llaw gan yr awdurdod cynllunio lleol³¹. Pan fo caniatâd adeilad rhestredig yn gysylltiedig â hyn, mae pob datblygiad telathrebu yn destun y gweithdrefnau statudol arferol (gweler Pennod 6).

12.13.2 Pan fo angen cymeradwyo manylion mewn caniatâd cynllunio yn achos ceisiadau cynllunio sy'n gysylltiedig â thelathrebu, dylid ystyried y ffactorau canlynol yn arbennig:

- i ba raddau y gellir rhannu mastiau radio a thelathrebu
- yr angen i ddysglau a gosodiadau ymdoddi i'r hyn sydd o'u cwmpas.

12.13.3 Mae Llywodraeth Cymru yn rhoi cryn bwys ar gadw at y nifer lleiaf posibl o fastiau a safleoedd ar gyfer gosodiadau o'r fath, a hynny i'r lleiafswm sy'n angenrheidiol er mwyn i'r rhwydwaith weithredu'n effeithlon. Rhoddir anogaeth gref i rannu mastiau a safleoedd os mai dyna'r ateb gorau posibl o safbwynt amgylcheddol mewn achos penodol. Dylid hefyd ddefnyddio adeiladau ac adeiladweithiau eraill sydd eisoes yn bodoli i osod antenau newydd. Hyd y bo modd, dylid eu lleoli mewn modd sy'n cyfyngu i'r eithaf ar yr effaith ar amwynder a golwg allanol yr adeilad.

12.13.4 Ar ôl cau'r rhwydwaith analog ar gyfer ffonau symudol, anogir aildefnyddio safleoedd sydd eisoes yn bodoli i sicrhau bod angen cyn lleied â phosibl o safleoedd newydd ar gyfer gorsafoedd newydd yr ail a'r drydedd genhedlaeth.

12.13.5 Ni ddylid gwrthod caniatâd cynllunio neu wrthod cymeradwyo manylion ar sail polisiau nad ydynt yn rhoi digon o sylw i dwf a nodweddion telathrebu modern.



12.13.6 Ni ddylai awdurdodau gwestiynu'r angen am y system delathrebu y bwriedir i'r datblygiad arfaethedig ei chynnal, na cheisio atal cystadleuaeth rhwng gwahanol weithredwyr. Y nod yw bod yr awdurdodau a'r gweithredwyr yn cydweithio i ddod o hyd i'r atebion gorau posibl i anghenion datblygu. Mae Llywodraeth Cymru yn argymhell yn gryf y dylai gweithredwyr telathrebu ac awdurdodau cynllunio lleol gynnal trafodaethau blynyddol am y cynlluniau a gynigir ar gyfer ardal pob awdurdod. Cyn cyflwyno cais datblygu penodol, dylai'r gweithredwyr ei drafod gyda'r awdurdodau cynllunio lleol. Hefyd, cyn cyflwyno'r cais, dylai'r gweithredwyr ei drafod gyda chyirff eraill, gan gynnwys grwpiau preswylwyr, sydd â budd yn y datblygiad arfaethedig.

12.13.7 Os oes mast i gael ei godi ar ysgol neu goleg neu gerllaw iddynt, mae'n bwysig bod y gweithredwyr yn trafod y datblygiad arfaethedig gyda chorff perthnasol yr ysgol neu'r coleg dan sylw cyn cyflwyno cais am ganiatâd cynllunio neu gymeradwyaeth ymlaen llaw i'r awdurdod cynllunio lleol.

12.13.8 Gall ystyriaethau iechyd fod yn ystyriaethau perthnasol wrth benderfynu ar geisiadau am ganiatâd cynllunio a chymeradwyaeth ymlaen llaw, ac felly hefyd, mewn egwyddor, bryder y cyhoedd ynghylch effeithiau o'r fath. Mater i'r Llysoedd, yn y pen draw, yw pennu a yw materion o'r fath yn berthnasol mewn achos penodol. Y sawl sy'n gwneud y penderfyniad fydd yn pennu faint o bwys y dylid ei roi ar ystyriaethau o'r fath mewn unrhyw achos penodol.

12.13.9 Mewn perthynas â goblygiadau datblygiad arfaethedig i iechyd, barn Llywodraeth Cymru yw na ddylid bod angen i awdurdod cynllunio lleol ystyried ymhellach unrhyw effeithiau iechyd na'r pryderon amdanynt wrth brosesu cais am ganiatâd cynllunio neu gymeradwyaeth ymlaen llaw, os yw datblygiad arfaethedig yn bodloni canllawiau'r Comisiwn Rhyngwladol ar Amddiffyn rhag Ymbelydriad Anïoneiddiol (ICNIRP), fel y'u ceir yn Argymhelliad Cyngor yr UE ar 12 Gorffennaf 1999 ar gyfyngu ar y meysydd electromagnetig y mae'r cyhoedd yn dod i gysylltiad â hwy (fel a argymhellwyd gan adroddiad y Grŵp Arbenigol Annibynnol ar Ffonau Symudol [Adroddiad Stewart]³², fel rhagofal). Disgwylir i bob gorsaf newydd fodloni canllawiau'r ICNIRP.

12.13.10 Awgrymodd adroddiad Stewart nifer o ragofalon penodol, ac mae Llywodraeth Cymru wedi derbyn y rhain. Nid yw'r adroddiad yn darparu unrhyw sail ar gyfer cymryd camau rhagofalus sy'n ychwanegol i'r rheini a gynigiwyd eisoes. Ym marn Llywodraeth Cymru, ni ddylai awdurdodau cynllunio lleol weithredu eu polisiau rhagofalus eu hunain, er enghraifft gwahardd neu ohirio datblygiadau telathrebu newydd neu bennu isafswm pellter rhwng datblygiadau telathrebu newydd a datblygiadau sy'n bodoli eisoes.

12.13.11 Mewn unrhyw ddatblygiad gall ymyriant radio sy'n amharu'n sylweddol, mewn modd na ellir ei ddatrys, ag offer trydanol o unrhyw fath arall fod yn ystyriaeth gynllunio berthnasol.



Figure 12.3 Seilwaith a Gwasanaethau

Canllaw ar gymhwyso datganiadau polisi cynllunio cenedlaethol mewn CDLlau Ystyriaethau lleoliadol

Ceir y datganiadau polisi cynllunio cenedlaethol a ddylai lywio'r polisiâu ar y seilwaith a gwasanaethau yn y paragraffau canlynol:

Paragraff	Mater Polisi
12.1.8, 12.3.1, 12.4.1	Dull strategol a hirdymor o ddarparu seilwaith, annog safleoedd lle mae'r ddarpariaeth eisoes ar gael a/neu lle y gellir datrys problemau, a datblygu graddol
12.6.2	Nodi lleoliadau addas neu safleoedd ar gyfer cyfleusterau gwastraff
12.6.3	Rheoli gwastraff a dyrannu safleoedd
12.8.12-14	Datblygiadau ynni'r gwynt ar raddfa fawr (dros 25MW) drwy Ardaloedd Chwilio Strategol
12.9.4	Mireinio Ardaloedd Chwilio Strategol yn lleol
12.8.18 a 12.9.8	Cyfleoedd i gydeoli datblygiadau mawr er mwyn cynyddu potensial ynni adnewyddadwy i'r eithaf
12.9.2	Rhoi arweiniad i ddatblygiadau ynni adnewyddadwy a charbon isel addas
12.12.1	Datblygiadau telathrebu mawr (os oes modd eu nodi mewn CDL)

Dylai awdurdodau cynllunio lleol hefyd roi sylw i Lythyr Egluro Polisi CL-04-04, sy'n trafod lleoliad cyfleusterau gwastraff ar ystadau diwydiannol³³.

Polisiâu ar destun penodol

Ceir y datganiadau polisi cynllunio cenedlaethol, y dylid ystyried eu cynnwys mewn polisiâu ar destunau penodol, yn y paragraffau canlynol:

Paragraff	Mater Polisi
12.2.1	Hyrwyddo effeithlonrwydd a rheoli'r galw am adnoddau dŵr
12.6.1-2	Hwyluso cyflawni'r polisi gwastraff cenedlaethol
12.8.15	Graddfeydd ynni adnewyddadwy
12.8.18	Hwyluso datblygiadau ynni adnewyddadwy a charbon isel ar raddfa'r awdurdod lleol
12.9.4	Cyfyngiadau derbynol ar ddatblygiadau ynni gwynt
12.9.9	Meini prawf ar gyfer datblygiadau ynni adnewyddadwy a charbon isel ar y raddfa is na graddfa'r awdurdod lleol
12.12.1-2	Datblygiadau telathrebu

Polisiau rheoli datblygu cenedlaethol

Mae'r paragraffau canlynol yn cynnwys datganiadau o bolisi cenedlaethol ar reoli datblygu ac ni ddylai fod angen eu hailadrodd fel polisi lleol mewn CDLlau:

Paragraff	Mater Polisi
12.1.7	Capasiti'r seilwaith presennol
12.3.1, 12.4.1, 12.4.2, 12.4.3	Y cyflenwad dŵr a charthffosiaeth
12.5.1, 12.5.3, 12.5.4, 12.7.1-2	Egwyddorion cyffredinol ar addasrwydd, lleoliadau a safleoedd cyfleusterau gwastraff
12.5.4	Hierarchaeth Gwastraff; Gweithfa Addas Agosaf a Hunanddigonolrwydd
12.5.2, 12.5.5-6	Asesu gwastraff/ polisi gwastraff cenedlaethol; monitro gwastraff
12.7.1	Rheoli gwastraff a datblygiadau ac eithrio datblygiadau gwastraff
12.7.4	Y berthynas rhwng cynllunio a thrwyddedu amgylcheddol (gwastraff)
12.8.2	Potensial cynaliadwy Cymru o ran ynni adnewyddadwy
12.8.6-11	Cymorth ar gyfer prosiectau ynni adnewyddadwy o bob math sy'n osgoi neu'n cyfyngu ar effeithiau ar yr amgylchedd
12.8.13-14	Ardaloedd Chwilio Strategol
12.8.14	Hwyluso seilwaith ychwanegol ar gyfer rhwydwaith y grid
12.8.14	Datblygiadau ynni adnewyddadwy mawr mewn ardaloedd sydd wedi'u dynodi yn rhyngwladol neu yn genedlaethol
12.8.15	Graddfeydd datblygiadau ynni adnewyddadwy a charbon isel
12.10.1	Rheoli datblygu ar gyfer ynni adnewyddadwy a charbon isel
12.10.1	Manteision amgylcheddol, cymdeithasol ac economaidd
12.10.1	Effaith ar y dreftadaeth naturiol, yr arfordir a'r amgylchedd hanesyddol
12.10.1	Effeithiau'r newid yn yr hinsawdd
12.13.2, 12.13.3	Mastiau telathrebu a rhannu safleoedd, aildefnyddio safleoedd sydd eisoes yn bodoli
12.13.2	Lleoli offer telathrebu
12.13.5	Ystyried telathrebu modern
12.13.6	Yr angen am systemau telathrebu arfaethedig
12.13.11	Ymyriant radio



Gellid crybwyll testunau sy'n berthnasol i'r ardal leol drwy gyfrwng croesgyfeiriad at Bolisi Cynllunio Cymru.

Ceir arweiniad ar ystyriaethau iechyd sy'n gysylltiedig â datblygiadau telathrebu ym mharagraffau 12.13.8-10. Ni ddylai awdurdodau cynllunio weithredu eu polisiau rhagofalus eu hunain.



Cyfeiriadau

- ¹ Mae Cyfarwyddeb Fframwaith Dŵr yr CE (2000/60/EC) yn cael ei gweithredu mewn ardaloedd basn afonydd yng Nghymru a Lloegr drwy [Reoliadau Amgylchedd Dŵr \(y Gyfarwyddeb Fframwaith Dŵr\) \(Cymru a Lloegr\) 2003 \(OS 2003/3242\)](#)
- ² [Nodyn Cyngor Technegol 12, Dylunio](#), Llywodraeth Cymru, 2014
- ³ [Trosglwyddwyd carthffosydd preifat a draeniau ochrol i'r ymgwymerwyr carthffosiaeth \(cwmnïau dŵr\) ar 1 Hydref 2011. Yn sgil hynny, cyflwynwyd proses newydd o 1 Hydref 2012 ymlaen ar gyfer pob cysylltiad newydd â'r system garthffosydd gyhoeddus.](#)
- ⁴ [Cylchlythyr y Swyddfa Gymreig 10/99, 'Planning requirements in respect of the use of non-mains sewerage, incorporating septic tanks in new development'](#)
- ⁵ Mae [Nodyn Cyngor Technegol 15, Datblygu a Pherygl o Lifogydd](#), 2004 yn darparu cyngor pellach ar systemau draenio cynaliadwy
- ⁶ [Tuag at Ddyfodol Diwastraff – Cymru'n Un: Cenedl Un Blaned](#), Llywodraeth Cynulliad Cymru 2010
- ⁷ [Y Cynllun Sector Casgliadau, Seilwaith a Marchnadoedd](#), Llywodraeth Cymru 2012
- ⁸ [Cyfarwyddeb 2008/98/EC](#) Senedd Ewrop a'r Cyngor 19 Tachwedd 2008 ar wastraff a diddymu rhai Cyfarwyddebau. Y gwastraffau a gwmpesir gan Erthygl 16 yw gwastraffau trefol cymysg, sy'n cynnwys y gwastraffau cymysg hynny a gesglir gan drydydd partiön o'r sectorau masnachol a diwydiannol, yn ogystal ag o anheddau preifat.
- ⁹ [Cyfarwyddeb 2008/98/EC](#) Senedd Ewrop a'r Cyngor 19 Tachwedd 2008 ar wastraff a diddymu rhai Cyfarwyddebau, Erthygl 16(1)
- ¹⁰ Pwrpas Cynllun Rheoli Gwastraff Safle (CRhGS) yw cynorthwyo cleientiaid, datblygwyr a chontractwyr yn y sector adeiladu a dymchwel i feddwl am y gwastraff a gynhyrchir cyn dechrau prosiect a sut y gellir lleihau'r gwastraff hwnnw, a chynllunio i reoli'r gwastraff a gynhyrchir mewn ffordd gynaliadwy.
- ¹¹ [Cyfarwyddeb 2009/28/EC](#) Senedd Ewrop a Chyngor 23 Ebrill 2009 ar hybu defnyddio ynni o ffynonellau adnewyddadwy, sy'n diwygio ac yna'n diddymu Cyfarwyddebau 2001/77/EC a 2003/30/EC
- ¹² [UK Renewable Energy Roadmap](#), Yr Adran Ynni a Newid Hinsawdd, 2011
- ¹³ [Ynni Cymru: Newid Carbon Isel](#), Llywodraeth Cymru 2012
- ¹⁴ Gweler erthyglau 13.5 a 14.5 o [Gyfarwyddeb 2009/28/EC](#) Senedd Ewrop a Chyngor 23 Ebrill 2009 ar hybu defnyddio ynni o ffynonellau adnewyddadwy, sy'n diwygio ac yna'n diddymu Cyfarwyddebau 2001/77/EC a 2003/30/EC



- 15 [Nodyn Cyngor Technegol 8, Cynllunio ar gyfer Ynni Adnewyddadwy](#), Llywodraeth Cynulliad Cymru, 2005
- 16 [Arweiniad Ymarferol: Cynllunio ar gyfer Ynni Adnewyddadwy a Charbon Isel – Llawlyfr i Gynllunwyr](#), Llywodraeth Cynulliad Cymru, 2010
- 17 [Gwireddu'r Potensial: Strategaeth Swyddi Gwyrdd i Gymru](#), Llywodraeth Cynulliad Cymru 2009
- 18 [Cyfarwyddeb 2009/28/EC](#) Senedd Ewrop a Chyngor 23 Ebrill 2009 ar hybu defnyddio ynni o ffynonellau adnewyddadwy, sy'n diwygio ac yna'n diddymu Cyfarwyddebau 2001/77/EC a 2003/30/EC
- 19 [Nodyn Cyngor Technegol 5, Cynllunio a Chadwraeth Natur](#), Llywodraeth Cynulliad Cymru, 2009
- 20 Darperir cyngor yn [Nodyn Cyngor Technegol 8: Cynllunio ar gyfer Ynni Adnewyddadwy](#), Llywodraeth Cynulliad Cymru 2005, ac ychwanegir at y cyngor hwnnw yn [Cyfarwyddyd Ymarfer – Goblygiadau Cynllunio Datblygiadau Ynni Adnewyddadwy a Charbon Isel](#), Llywodraeth Cynulliad Cymru 2010
- 21 [Tariff Cyflenwi Trydan](#) (Cynllun Arian am Ynni Glân)
- 22 [Ynni'r Fro](#) (Cynhyrchu Ynni Adnewyddadwy ar Raddfa Gymunedol)
- 23 [Gorchymyn Cynllunio Gwlad a Thref \(Datblygu Cyffredinol a Ganiateir\) \(Diwygio\) \(Cymru\) 2012](#) OS 2012/1346
- 24 [Cynhyrchu eich Ynni Adnewyddadwy Eich Hunan: Cartrefi](#), Llywodraeth Cymru 2012
- 25 [Deddf y Môr a Mynediad i'r Arfordir 2009](#)
- 26 [Arweiniad Ymarferol: Cynllunio ar gyfer Ynni Adnewyddadwy a Charbon Isel – Llawlyfr i Gynllunwyr](#), Llywodraeth Cynulliad Cymru, 2010
- 27 [Ynni Cymru: Newid Carbon Isel](#), Llywodraeth Cymru 2012
- 28 [Cylchlythyr y Swyddfa Gymreig 13/97: Rhwymedigaethau Cynllunio](#)
- 29 [Nodyn Cyngor Technegol 19, Telathrebu](#), Llywodraeth Cynulliad Cymru, 2002
- 30 [Canllaw Cynllunio i Ddeiliaid Tai ar gyfer Gosod Antenâu, gan gynnwys Dysglau Lloeren](#), Llywodraeth Cynulliad Cymru, 2008
- 31 [Cod Arferion Gorau ar Ddatblygu'r Rhwydwaith Ffonau Symudol](#), Llywodraeth Cynulliad Cymru, 2003



³² Gellir gweld [Adroddiad Stewart](#) ar wefan y Grŵp Arbenigol Annibynnol ar Ffonau Symudol (IEGMP)

³³ [Llythyr Egluro Polisi CL-04-04 – Cynlluniau Datblygu Unedol: Polisiâu Gwastraff Ceisiadau Cynllunio ar gyfer Gwastraff Peryglus](#), Llywodraeth Cynulliad Cymru, 2004

